agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Canolfannau Meddygol Sgeti a Chilâ

# Dyddiad y gweithgarwch: 31 Ionawr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mawrth 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80391-824-2

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ganolfannau Meddygol Sgeti a Chilâ fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfannau Meddygol Sgeti a Chilâ yn rhan o wasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd.  Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 31 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarperir cyn COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd mewn grym i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?
- Pa mor hawdd ydyw cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg COVID-19, a oedd yn cynnwys atal a rheoli heintiau ac asesiadau risg iechyd a diogelwch staff
- Polisi iechyd a diogelwch

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol y pandemig COVID-19. Trefnodd y practis i gleifion dderbyn ymgynghoriadau dros y ffôn. Staff y dderbynfa oedd yn delio â'r holl alwadau. Roedd unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigwr wyneb yn wyneb yn mynychu'r practis drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw, a chafodd pob claf ei wirio am symptomau COVID-19 cyn cael cynnig apwyntiad.

Dywedodd y staff wrthym am gyfres o newidiadau a wnaed i'r practis yn unol â chanllawiau COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared ar flerwch o ystafelloedd clinigol a chlinigwyr yn glanhau pob ystafell rhwng cleifion. Fe wnaeth staff hefyd rwystro defnydd seddi yn y man aros er mwyn cadw pellter cymdeithasol a chau ardal chwarae'r plant.

Pe bai claf wedi profi'n bositif am COVID-19 neu'n dangos symptomau a bod angen iddo weld clinigydd, dywedwyd wrthym y byddai staff naill ai'n gweld cleifion mewn caban cludadwy ar eu safle yng Nghilâ, neu mewn ystafell glinigol benodedig ar safle Sgeti neu Gilâ. Pe byddent yn defnyddio ystafell yn y practis, byddai staff sy'n gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn yn hebrwng y claf i'r practis drwy fynedfa arall, er mwyn osgoi dod i gysylltiad â chleifion a staff eraill.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael asesiad risg i asesu'r risgiau personol sydd ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac i dynnu sylw at unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'w harferion gwaith.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal, sydd â meddyg teulu penodol wedi'i neilltuo ar eu cyfer. Mae'r staff clinigol yn dilyn

y gweithdrefnau yn y cartref gofal wrth fynd i mewn i'r lleoliad. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod y cartrefi gofal wedi cael rhif cyswllt uniongyrchol ar gyfer y practis er mwyn osgoi mynd drwy'r switsfwrdd.

Dywedodd staff wrthym eu bod wrthi'n gwneud y system ffôn yn un ddwyieithog a bod ganddynt ddau aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg hefyd. Mae posteri dwyieithog a sgriniau teledu yn y man aros yn arddangos hysbysebion dwyieithog. Mae'r practis hefyd yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar gyfer unrhyw gleifion y mae angen iddynt sgwrsio mewn ieithoedd eraill.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oes gan y practis asesiad risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer yr amgylchedd er bod y practis wedi cwblhau'r holl waith angenrheidiol ar y meysydd risg a nodwyd. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis fod yn rhaid rhoi'r asesiad risg hwn ar waith.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi glanhau ar gyfer cwmni glanhau allanol
- Amserlen lanhau ar gyfer cwmni glanhau allanol
- Polisi atal a rheoli heintiau
- Enghreifftiau o dystysgrifau hyfforddi staff ar gyfer hyfforddiant atal a rheoli heintiau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i adlewyrchu’r drefn ar gyfer rheoli COVID-19. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr amserlenni glanhau wedi cynyddu a bod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi cael ei optimeiddio gyda stoc ddigonol yn cael ei chyrchu a’i monitro'n rheolaidd.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff yn y practis wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg[1] cyfarpar a chael gwared ar gyfarpar ar ôl ei ddefnyddio’n ddiogel.

[1] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth o bolisi ac amserlen lanhau gan y cwmni glanhau a gyflogir i lanhau'r practis. Fodd bynnag, nid oes gan y practis bolisi glanhau 'mewnol' ar hyn o bryd, ar gyfer glanhau ychwanegol a wneir gan staff rhwng cleifion yn ystod y dydd. Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod polisi glanhau ar waith yn y practis.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau, a gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer y staff. Fodd bynnag, nid oes matrics hyfforddi ar hyn o bryd i gadw cofnod o'r holl hyfforddiant staff. Mae'n rhaid i reolwr y practis sicrhau bod yr holl hyfforddiant staff yn cael ei fonitro a'i gofnodi.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cofnodion cyfarfodydd staff am y tri mis diwethaf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod y practis wedi cynllunio'n dda ac wedi gwneud gwelliannu i'w gynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig COVID-19. Gwelsom gopi o'r polisi ar gyfer argyfwng pandemig, a oedd yn helpu i sicrhau parhad darpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, gofynnwyd am wybodaeth am y trefniadau rhyddhau cleifion presennol. Gofynnwyd hefyd am atgyfeiriadau i wasanaethau gofal eilaidd ac a oedd y gwasanaethau hyn yn rhoi sylw i atgyfeiriadau mewn modd amserol ai peidio. Nid oedd rheolwr y practis yn gallu rhoi gwybodaeth i ni am y trefniadau rhyddhau presennol ac roedd yn ansicr ynglŷn ag amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal eilaidd. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff fod â gwybodaeth ddigonol am drefniadau rhyddhau ac amseroedd aros, er mwyn hysbysu cleifion yn gywir.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Canolfannau Meddygol Sgeti a Chilâ |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 31/01/2022 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Er bod yr holl addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud i amgylchedd y practis, nid oes gan y practis asesiad risg ysgrifenedig ar gyfer yr amgylchedd ar waith ar hyn o bryd. Rydym yn gofyn i'r practis lunio'r rhain cyn gynted â phosibl. | Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch (Safonau Iechyd a Gofal) | Ar y gweill. Yn gweithio gyda'r nyrsys. Dyddiad y cyfarfod nesaf 16/03/2022 i'w gwblhau. | Mags Gilroy | 31/03/2022 |
| 2 | Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod polisi glanhau ysgrifenedig ar gyfer y practis ar waith cyn gynted â phosibl. | Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi (Safonau Iechyd a Gofal) | Ar y gweill. Yn gweithio gyda'r nyrsys ac yn diweddaru holl bolisïau'r practis. Dyddiad y cyfarfod nesaf 16/03/2022. | Mags Gilroy | 31/03/2022 |
| 3 | Gwelsom enghreifftiau o hyfforddiant atal a rheoli heintiau | Safon 7.1 Y Gweithlu | Ar y gweill. Dechreuodd y rheolwr practis | Emma Allchurch | 31/03/2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | a gwblhawyd gan staff, ond nid oes gan reolwr y practis fatrics hyfforddi ar waith ar hyn o bryd ar gyfer yr holl hyfforddiant staff. Mae'n rhaid i reolwr y practis sicrhau bod yr holl hyfforddiant staff yn cael ei fonitro a'i gofnodi a darparu tystiolaeth i AGIC ar sut mae hyn yn cael ei wneud. | (Safonau Iechyd a Gofal) | cynorthwyol newydd ar 21/02/2022, ond mae bellach yn absennol oherwydd COVID-19. Mae taenlen matrics hyfforddi wedi'i chreu; manylion i'w hychwanegu gan Emma. | | |
| 4 | Mae'n rhaid i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r trefniadau rhyddhau cleifion presennol ac amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau gofal eilaidd, er mwyn iddynt allu hysbysu cleifion. | Safon 7.1 Y Gweithlu (Safonau Iechyd a Gofal) | Ar y gweill. Cyfarfod gyda phartneriaid i drafod yn y cyfarfod practis nesaf. | Mags Gilroy | 31/03/2022 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Mags Gilroy, Rheolwr y Practis

Dyddiad: 02/03/2022